SSCE CYMRU — SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES — CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# BWLETIN YSGOL MISOL – IONAWR 2023

## Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (Gogledd Cymru)



*“Croeso nôl! Gobeithio eich bod chi i gyd wedi cael seibiant Nadolig hyfryd a Blwyddyn Newydd Dda! Mae gan SSCE Cymru llawer o brosiectau ar y gweill eleni, gan gynnwys cynlluniau cyffrous i ddathlu Mis y Plentyn Milwrol yn ystod mis Ebrill. Byddwn yn anfon rhagor o gyfathrebiadau am hyn yn fuan ac yn edrych ymlaen at weld sut y bydd ysgolion yn cymryd rhan. Byddai hefyd yn wych gweld mwy o ysgolion o'r Gogledd yn gweithio tuag at eu statws Ysgolion sy'n cefnogi’r Lluoedd Arfog Cymru eleni gan ei fod yn gyfle gwych ysgolion ddatblygu ymhellach a gwella eu cefnogaeth i Blant y Lluoedd Arfog ac ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog. Plis cysylltwch os hoffech wybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn eich ardal neu i ddechrau gweithio tuag at eich statws. Byddwn i wrth fy modd yn clywed gennych chi!”*

**Cara,** CaraLloyd-Roberts@ynysmon.llyw.cymru

## Swyddog Arweiniol Cyfranogiad



*"Blwyddyn Newydd Dda! Wrth i ni ddechrau'r flwyddyn newydd a symud ymlaen i dymor y Gwanwyn mae'n caniatáu inni ailffocysu ac ystyried dechrau prosiectau newydd, pethau i ddatblygu dros weddill y flwyddyn academaidd. Fe wnes i fwynhau ymgysylltu ag ambell ysgol yng Nghymru diwedd y flwyddyn llynedd, sydd eisoes yn cymryd rhan yn y cyrsiau Cynradd ac Uwchradd, a ddyluniwyd gan Little Troopers. Dwi'n edrych ymlaen at glywed sut maen nhw'n dod ymlaen dros yr wythnosau nesaf a beth maen nhw wedi ei ddarganfod am eu plant Milwyr a'u profiadau unigryw. Os hoffai eich ysgol fanteisio ar y cyfle i gynnal y cwrs hwn a dangos sut rydych chi'n cefnogi plant y Lluoedd Arfog sy'n mynychu eich ysgol, yna cysylltwch â ni.”*

**Jo,** Joanna.wolfe@wlga.gov.uk

## DYLETSWYDD CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Mae Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i dalu sylw dyladwy i egwyddorion y Cyfamod wrth arfer rhai swyddogaethau.

**Daeth Dyletswydd y Cyfamod i rym ar 22ain Tachwedd 2022.**

**Rhagor o wybodaeth yma**

## CYLLID

**SSCE Cymru Cymhorthydd rheoli achosion**
Ar gael trwy gydol y flwyddyn.

**Cyngor:** Siaradwch â’ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol a defnyddiwch ganllawiau cyllido SSCE Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

**Rhagor o wybodaeth yma**

## HYFFORDDIANT

**Sesiynau DPP SSCE Cymru**

Dyddiadau ar gael ym mis Ionawr.

**Gweler dyddiadau ac archebwch**

## ADNODDAU

**Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog: Briff Awdurdodau Lleol a Ysgolion.**

**Ar gael yma**

**Month of the Military Child**
**Mis y Plentyn Milwrol**
April/Ebrill | #MilitaryChildMonthCymru